# Geirfa Allweddol

**Allah** -Duw
**Amrywiol** -Pobl o wahanol gefndiroedd cymdeithasol ac ethnig.
**Apartheid** -y system wleidyddol o gadw pobl wyn a chroenddu arwahan ac o drin pobl groenddu yn annheg. System oedd yn bodoli yn Ne Affrica ac yn rhai o daleithiau UDA.
**Bwdha** -un sydd wedi ei oleuo gyda gwybodaeth a dealltwriaeth arbennig; gall gyfeirio at unigolyn arbennig fel sylfaenydd y grefydd Bwdhaeth.
**Cyfrifon** -y cofnod ariannol mewn busnes o’r hyn sydd o ran arian wedi ei dderbyn a’i wario.
**Cymod** -Adfer perthnasoedd cyfeillgar.
**Dalai Lama** -un o 14 arweinydd ysbrydol arbennig Bwdhyddion Tibet.
**Dameg** -stori a gwers ynddi.
**Dial/dialedd** -Y teimlad o fod isio talu’n ôl i rhywun am y cam maen nhw di neud â chi e.e. Os oes 'na rywun yn fy nharo i yna dwi’n trio eu taro’n ôl a hynny mewn ffordd waeth.
**Dull di-drais** -gweithredu mewn ffordd sydd ddim yn gwneud niwed i berson arall.
**Edifar/edifarhau** -teimlo’n ddrwg eich bod wedi dweud neu wneud rhywbeth niweidiol i berson arall a hynny’n arwain at ofyn am faddeuant.
**Efengyl Mathew** -un o’r pedwar llyfr yn y Testament Newydd sy’n rhoi hanes bywyd a dysgeidiaeth Iesu. Y tri arall yw Marc, Luc ac Ioan.
**Eithafiaeth** -Y weithred o gyflawni gweithredoedd trwy unrhyw fodd i fynegi safbwyntiau sy'n cyfiawnhau neu'n clodfori trais terfysgol.
**Ffwndamentaliaeth** -Symudiad neu agwedd sy'n pwysleisio ymlyniad caeth a llythrennol at set o egwyddorion sylfaenol.
**Gwobr Heddwch Nobel** -Gwobr flynyddol a roddir i berson sydd wedi gwneud cyfraniad arbennig i heddwch.
**Hadith** -Cofnod o eiriau a gweithredoedd y Proffwyd Islamaidd Muhammad.
**Heddwch** -Cyflwr o ddim gwrthdaro.
**Holocost** -Ymdrech Hitler i lofruddio holl Iddewon Ewrop yn ystod yr Ail Ryfel Byd.
**Islam** -Un o brif grefyddau'r byd.
**Maddeuant** -Y weithred neu'r broses o faddau neu gael maddeuant.
**Mwslim** -Un sy'n dilyn Islam.
**Pechu** -troseddu yn erbyn Duw neu berson arall.
**Pedr** -Seimon Pedr, un o ddisgyblion cyntaf Iesu.
**Pum piler Islam** -Pum cred greiddiol Islam.
**Qur’an** -Y llyfr sanctaidd Islamaidd.
**Shahada** -Un o Bum Piler Islam, sef y gred mewn un Duw (Allah).
**Tangnefedd Iddo** -Dywedir gan Fwslimiaid ar ôl dweud enw’r Proffwyd Muhammad, fel arwydd o barch.
**Tawelwch Mewnol** -Teimlad meddyliol ac ysbrydol o fod mewn heddwch.
**Tosturiol** -Teimlo neu ddangos cydymdeimlad a phryder am eraill.